**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 4ydd o Fawrth 2024**

**Presenoldeb:** Cynghorydd Gwynfor Owen (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr:

Alan Jones Evans, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell a Gareth Williams

Swyddogion:

Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams and Elfed Williams

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Rhagfyr 4ydd 2023 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 26 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

## 6. ADOLYGIAD O DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT – DEDDF TRWYDDEDU 2003, YN DILYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlygu'r angen i bob Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi datganiad o Bolisi Trwyddedu bob 5 mlynedd. Eglurwyd bod y Datganiad o Bolisi presennol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn Rhagfyr 2015, a'r cyfnod 5 mlynedd felly wedi dod i ben ers 2021. Er i'r Pwyllgor gymeradwyo adolygiad drafft o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym Mehefin 2021, bu oediad cyn symud ymlaen gyda'r adolygiad oherwydd bod y Gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i waith gorfodaeth cyfnodau clo covid.

Nodwyd bod chwe sir y Gogledd wedi penderfynu sefydlu Grŵp Tasg er mwyn cydweithio i greu datganiad o Bolisi Trwyddedu oedd yn cysoni elfennau cyffredin ar draws y rhanbarth. Ategwyd, bod y Grŵp Tasg hefyd wedi ceisio cydweithio ar gysondeb, strwythur a chynnwys y datganiad, ond oherwydd ffactorau economaidd a chymdeithasol gwahanol, nodwyd bod pob datganiad wedi ei eirio ychydig yn wahanol ac yn parhau i fod yn berthnasol i'w ardal benodol.

Cyfeiriwyd at fan newidiadau i'r polisi megis cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn y broses o lunio polisi ynghyd ag ymateb i geisiadau am drwydded eiddo. Er y newidiadau, adroddwyd nad oedd ysbryd na gweledigaeth y polisi wedi newid.

Yng nghyd-destun ymgynghoriad ffurfiol, cynhaliwyd ymgynghoriad dros fis Rhagfyr 2023 ac Ionawr 2024 gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân & Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion y Sir, Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrif gyfredol ynghyd a chopi o'r ddogfen oedd ar gael i'w harchwilio yn Siop Gwynedd ac ar-lein. Adroddwyd na chafwyd ymateb a hynny efallai oherwydd nad oedd y polisi drafft newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau dadleuol. Amlygwyd bod Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y datganiad cyfredol hefyd wedi ei gwblhau oherwydd bod newidiadau wedi eu gwneud i'r polisi ers 2015.

Diolchwyd am yr adroddiad

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r Polisi

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w fabwysiadu (Mai 2024)**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:10am